www.xtrapapers.com

OCR
Oxford Cambridge and RSA

# Dydd Mawrth 10 Ionawr 2017 – Bore

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

Mae ymgeiswyr yn ateb ar y Papur Cwestiynau.

**Deunyddiau a ddarperir gan OCR:**
- Copi Glân o'r Astudiaeth Achos wedi'i Rhyddhau Ymlaen Llaw (R001/02 – Atodiad)

**Deunyddiau eraill angenrheidiol:**
Dim

**Amser:** 1 awr

| Enw cyntaf yr ymgeisydd | | Cyfenw'r ymgeisydd | |
|---|---|---|---|

| Rhif y ganolfan | | | | | | Rhif yr ymgeisydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

- Mae Atodiad yr Astudiaeth Achos y tu mewn i'r ddogfen hon.
- Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau uchod. Ysgrifennwch yn glir ac mewn priflythrennau.
- Defnyddiwch inc du. Gellir defnyddio pensil HB ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.
- Atebwch **bob** cwestiwn.
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus. Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud cyn dechrau eich ateb.
- Ysgrifennwch eich ateb i bob cwestiwn yn y lle gwag a ddarperir. Gellir defnyddio papur ychwanegol os bydd angen, ond rhaid i chi ddangos eich rhif ymgeisydd, rhif y ganolfan a rhif/rhifau'r cwestiwn yn glir.
- **Peidiwch** ag ysgrifennu yn y codau bar.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

- Mae nifer y marciau sydd ar gael wedi'i nodi mewn cromfachau **[ ]** ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
- **60** yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **12** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

© OCR 2017 [K/503/6025]
DC (KN) 143786/1
Mae OCR yn Elusen eithriedig

**Trowch y dudalen**

www.xtrapapers.com



Atebwch **bob** cwestiwn.

## ADRAN A

**Mae'r cwestiynau yn yr adran hon wedi'u seilio ar Senario 1 yn yr astudiaeth achos a'ch ymchwil gefndir.**

1 Mae'r tŷ bwyta yn creu bwydlen newydd bob wythnos.

**(a)** Nodwch **un** ddyfais allbynnu sy'n gallu cael ei defnyddio i greu copi caled o'r fwydlen hon.

........................................................................................................................ **[1]**

Mae'r fwydlen yn cynnwys delweddau o'r prydau bwyd.

**(b)** Nodwch **un** ddyfais fewnbynnu a allai gael ei defnyddio i gipio'r delweddau hyn.

........................................................................................................................ **[1]**

**(c)** Esboniwch fanteision cael delweddau lliw yn hytrach na delweddau du a gwyn yn y fwydlen.

...........................................................................................................................

...........................................................................................................................

...........................................................................................................................

...........................................................................................................................

...........................................................................................................................

...........................................................................................................................

...........................................................................................................................

........................................................................................................................ **[4]**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



**2** Mae gan system archebu'r tŷ bwyta gyfrifiaduron llechen (*tablet computers*) sy'n gysylltiedig â'i rwydwaith. Gall cwsmeriaid ddefnyddio'r cyfrifiaduron llechen hyn i archebu eu prydau bwyd.

**(a)** Nodwch y dull **mwyaf** addas a allai gael ei ddefnyddio i gysylltu'r cyfrifiaduron llechen â rhwydwaith y tŷ bwyta.

........................................................................................................................................ **[1]**

**(b)** Nodwch **un** fantais i'r tŷ bwyta o ddefnyddio'r system archebu hon i gymryd archebion.

...........................................................................................................................................

...........................................................................................................................................

...........................................................................................................................................

........................................................................................................................................ **[2]**

**(c)** Esboniwch **un** anfantais o ddefnyddio'r system archebu hon i archebu bwyd.

...........................................................................................................................................

...........................................................................................................................................

...........................................................................................................................................

........................................................................................................................................ **[2]**

**(d)** Caiff archebion eu hanfon i ddyfais allbynnu yn y gegin.

**(i)** Nodwch **un** ddyfais allbynnu a fyddai'n addas i'w defnyddio yn y gegin i arddangos archebion.

................................................................................................................................ **[1]**

**(ii)** Esboniwch **un** o nodweddion y ddyfais hon sy'n ei gwneud yn addas at y diben hwn.

...................................................................................................................................

...................................................................................................................................

...................................................................................................................................

................................................................................................................................ **[2]**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



**3** Mae gan y tŷ bwyta ffurflen ar-lein y gall cwsmeriaid ei defnyddio ar gyfer bwcio byrddau.

Pan fydd yn bwcio bwrdd, rhaid i'r cwsmer roi rhif ffôn cyswllt.

**(a)** Nodwch **ddwy** ddyfais fewnbynnu a allai gael eu defnyddio i gofnodi rhif ffôn mewn ffurflen ar-lein.

1 ..........................................................................................................................

2 ..........................................................................................................................
**[2]**

**(b)** Mae'r ffurflen ar-lein yn cynnwys cwestiynau am enw'r cwsmer, nifer y bobl yn y grŵp a'r amser maen nhw eisiau cyrraedd.

Esboniwch pam mae'r ffurflen yn cynnwys y cwestiynau hyn.

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

.......................................................................................................................... **[4]**

**(c)** Cwestiwn arall y gallai'r tŷ bwyta ei gynnwys ar y ffurflen yw gofyn am ddyddiad geni'r unigolyn sy'n bwcio'r bwrdd.

Esboniwch pam **nad** yw'r cwestiwn hwn yn addas i'w gynnwys ar y ffurflen.

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

.......................................................................................................................... **[2]**

**(d)** **(i)** Nodwch **un** cwestiwn arall fyddai'n briodol i'w ddefnyddio ar y ffurflen.

..........................................................................................................................

.......................................................................................................................... **[1]**

**(ii)** Rhowch **un** rheswm pam mae'r cwestiwn hwn yn briodol.

..........................................................................................................................

.......................................................................................................................... **[1]**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



4 Mae'r tŷ bwyta'n darparu ap sy'n gallu cael ei lawrlwytho am ddim. Mae'r cwsmeriaid yn gallu defnyddio hwn i dalu eu bil ar ddiwedd y pryd bwyd.

Esboniwch sut gallai anghenion y tŷ bwyta a'r angen am ddiogelwch data fod wedi effeithio ar y penderfyniad i roi ap i gwsmeriaid dalu eu bil.

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

................................................................................................................................. **[8]**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



## ADRAN B

**Mae'r cwestiynau yn yr adran hon wedi'u seilio ar Senario 2 yn yr astudiaeth achos a'ch ymchwil gefndir.**

**5** Mae'r tŷ bwyta'n cynnal parti thema bob mis. Hoffai rheolwr y tŷ bwyta greu taflen i hyrwyddo'r parti'r mis hwn.

**(a)** Nodwch y math **mwyaf** priodol o feddalwedd rhaglenni (*applications software*) a fyddai'n cael ei defnyddio i greu'r daflen hon.

........................................................................................................................................ **[1]**

**(b)** Ar wahân i'r gallu i ychwanegu delweddau, nodwch **dair** o nodweddion y feddalwedd hon sy'n gallu cael eu defnyddio i greu taflen effeithiol.

1 ........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

2 ........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

3 ........................................................................................................................................

........................................................................................................................................ **[3]**

Hoffai'r tŷ bwyta gynnwys graffigwaith ar y daflen ac mae wedi bod yn chwilio am graffigwaith addas sydd â thrwydded eiddo creadigol cyffredin (*creative commons licence*).

**(c)** Disgrifiwch beth mae 'trwydded eiddo creadigol cyffredin' yn ei olygu.

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................ **[2]**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



**(d)** Esboniwch **ddau** reswm pam efallai bydd y tŷ bwyta eisiau defnyddio graffigwaith sydd â thrwydded eiddo creadigol cyffredin.

1 ..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

2 ..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**[4]**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



**6** Mae bwciadau ar gyfer y noson yn cael eu storio mewn cronfa ddata. Mae'r gronfa ddata yn cynnwys rheolau dilysu.

Caiff detholiad o'r gronfa ddata ei ddangos yn **Ffig. 1**.

| **Cyfeirnod_ y_ bwciad** | **Enw** | **Stryd** | **Cod post** | **Cyfeiriad_ e-bost** | **Dyddiad_ y_ bwciad** | **Amser_ y_ bwciad** | **Nifer_ y_ bobl** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | George | Stryd Argyle | AN7 6TY | george@home mail.com | 1/2/17 | 19:30 | 4 |
| 218 | Sue | Stryd Fleet | AN4 6HY | SUE@Grumbl email.com | 1/2/17 | 19:30 | 6 |
| 319 | Jane | Ashgrove | AN2 4GT | Jane.Hughes @Forts.co.uk | 1/2/17 | 20:00 | 3 |

**Ffig. 1**

**(a)** **(i)** Mae gwiriad fformat yn un math o ddilysiad.

Nodwch **un** eitem o ddata ar y ffurflen a allai gael ei dilysu gan wiriad fformat.

...................................................................................................................................... **[1]**

**(ii)** Disgrifiwch sut mae'r gwiriad fformat yn nodi data annilys ar y ffurflen ac yn rhoi gwybod i'r defnyddiwr fod data annilys yn bresennol.

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

...................................................................................................................................... **[4]**

**(b)** Disgrifiwch **un** math arall o ddilysiad a allai gael ei ddefnyddio ar y ffurflen.

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

...................................................................................................................................... **[2]**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



**7** Gan fod staff yn absennol ar ddechrau'r noson, a hynny'n annisgwyl, rhaid i'r rheolwr gysylltu â staff i ofyn a ydyn nhw ar gael i weithio'r oriau ychwanegol. Rhaid iddi ddewis o blith staff mae hi'n eu cyflogi eisoes.

**(a)** Cymharwch y defnydd o e-bost a chyfathrebu wyneb yn wyneb fel dulliau a allai gael eu defnyddio i ofyn i staff a ydyn nhw ar gael.

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

.................................................................................................................................... **[4]**

**(b)** Disgrifiwch **un** dull cyfathrebu addas arall y gallai'r rheolwr ei ddefnyddio i ofyn i staff a ydyn nhw ar gael i weithio'r oriau ychwanegol.

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

.................................................................................................................................... **[2]**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



8 Bydd cod bar (*barcode*) ar bob tocyn unigol ar gyfer y noson.

**(a)** Disgrifiwch sut mae darllenydd cod bar yn darllen y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar y tocyn.

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

....................................................................................................................................... **[4]**

**(b)** Nodwch **un** eitem arall a allai gael ei chynnwys ar y tocyn i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd tocynnau ffug yn cael eu hadnabod gan staff sy'n gweithio wrth y drws.

....................................................................................................................................... **[1]**

**DIWEDD Y PAPUR CWESTIYNAU**

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**

OCR
Oxford Cambridge and RSA

**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2017